

# Ar fy ffordd

*“Fel y digwyddodd, yr oedd offeiriad yn mynd i lawr ar hyd y ffordd honno; pan welodd ef, aeth heibio o’r ochr arall.” (adn. 31)*

## Beth am ddarlenn Luc 10:25–37 ac yna myfyrio

Yr wyf wedi tybied erioed mai’r adnod dan sylw heddiw yw’r adnod sydd yn cynnwys yr elfen fwyaf trist yn yr Ysgrythur. Sylwch fel y mae’r offeiriad yn mynd y ffordd arall, gan edrych ar y dyn oedd wedi profi loes o dan law’r lladron, ac eto, ddim yn cael ei effeithio gan hyn.

Mae’r agwedd yma lle nad oes gennym fawr o ofal dros eraill yn agwedd sydd i’w gweld yn gynyddol yn ein cymdeithas. Wrth wyluo’r teledu yn ddiweddar, clywais newyddiadurwr yn nodi: “Y mae gennym lawer o anawsterau yn ein byd heddiw ond yr anhawster pennaf yw’r anhawster a ddaw yn sgil diffyg gofal.” Sut mae y Cristion i fyw ei fywyd mewn byd fel hyn? Dylem ofalu. Nid yw agwedd pobl eraill a gweithredoedd pobl eraill i fod yn rheol i’n bywyd ni?

Fe ysgrifennodd Shakespeare rai geiriau sydd mewn cytgord â’r Ysgrythur. Beth am hyn: “Nid yw cariad yn gariad os yw’n newid pan fo yna newidiadau.” Ond mae gwir gariad at ein gilydd yn aros yn gyson, beth bynnag yw’r newidiadau a’r anghysondeb mewn eraill. Dywedir am Ioan Fedyddiwr ei fod: “yn llais yn galw yn y diffeithwch.” (Mathew 3:3) Dywedodd rhywun mai’r gwahaniaeth rhwng llais ac adlais yw mai’r llais yw y sŵn gwreiddiol, a’r adlais yw rhywbeth sydd heb fod yn wreiddiol. Ai adlais neu lais ydym ni o fewn ein cymunedau?

Blynyddoedd yn ôl aeth meddyg o’r Unol Daleithiau i weithio yn genhadwr yn China. Wrth ddelio gydag achos o’r diciâu, fe gafodd y meddyg y clwy ei hun. Fe glywodd fod yna wraig ar farw petai rhywun ddim yn delio gyda’r anawsterau yr oedd yn eu hwynebu wrth esgor ar blentyn. Gofynnodd i’w gyd-weithwyr ei gludo i’r ystafell lawdriniaeth ac fe fu iddo roi llawdriniaeth i’r wraig wrth iddo farw ei hun. Efallai na sylweddolodd y wraig erioed beth a ddigwyddodd. Efallai nad oedd yn poeni. Ond roedd y cenhadwr yn poeni, ac, yn hynny, yr oedd wedi gwneud yr hyn oedd yn iawn.

## Beth am fynd ymlaen i ddarlenn:

Esec. 16:4–14; Luc 15:1–7; Gal. 6:1–3; Iago 2:8

## Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Pam mae hi yn ein natur i fynd o’r tu arall heibio?
2. Pam ddylem geisio cynorthwyo eraill?

## Gweddi

O Dad, caniatâ i mi ddwyn i mewn i’w perthynas ag eraill y gofal a’r consŷrn yna sydd yn ysgafnhau baich eraill. Gwared fi rhag mynd o’r tu arall heibio. Yn enw Iesu. Amen.